



## Argyfwng hinsawdd

20 Mawrth 2023

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Mawrth, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

*Dear Freedom of Information Team*

*Subject: Evidence of Climate Emergency*

*I refer to the above subject. "Future Wales - National Plan 2040" [the Plan] was published 24 February 2021 by Welsh Government, following scrutiny and approval by Welsh Parliament.*

*Energy policy in Wales is driven by the declared "climate emergency". 10 pre-assessed areas, where there is a presumption in favour of large-scale wind energy development, are identified in the Plan; as outlined in Annex 1 below.*

*I would be grateful if you could arrange to provide me with a copy of the evidence - provided by Welsh Government to Welsh Parliament - to support the assertion of a climate emergency.*

Mae ein hymateb i'ch cais isod.

Ar **29 Ebrill 2019** cyhoeddodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, roedd deddfwriaeth yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd wedi bod ar waith yng Nghymru ers rhai

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

blynyddoedd cyn y datganiad. Y ddeddfwriaeth hon sydd wedi llywio'r polisi newid hinsawdd ers dros ddegawd.

Un ar ddeg o flynyddoedd cyn datganiad y Gweinidog, cafwyd **Deddf Newid Hinsawdd 2008** a oedd ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU osod targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr penodol ar gyfer y DU gyfan erbyn 2050.

Yna, yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Newid Hinsawdd** yn ymrwymo i leihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i lefel 40% islaw lefelau 1990 erbyn 2020. Roedd y Strategaeth yn cynnwys targed i sicrhau gostyngiad o 3% bob blwyddyn mewn allyriadau mewn meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig (h.y. mewn meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol drostynt) o 2011 ymlaen, o'i gymharu â'r llinell sylfaen ar gyfer yr allyriadau cyffredinol rhwng 2006 a 2010.

Yn ddiweddarach, cyflwynwyd deddfwriaeth i osod targedau lleihau allyriadau yng Nghymru. Yn ôl **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Mae trafodaethau'r Senedd ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'w gweld ar **wefan y Senedd**. Mae paragraffau 136-159 (tudalennau 39-43) o'r **Memorandwm Esboniadol** sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf yn rhoi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd.

Sylwch fod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at Bwyllgor Newid Hinsawdd Senedd y DU, sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch sut i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, ac a sefydlwyd o dan adran 32 o **Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008**.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth  
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF